

Datganiad ar ymweld â phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal

Mae'r pandemig wedi creu heriau ychwanegol i'r sector gofal cymdeithasol. Gwyddom fod darparwyr yn parhau i wneud gwaith rhagorol, er gwaethaf effaith COVID-19 ar lesiant y bobl sy'n byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal. Rydym hefyd yn cydnabod y pwysau ychwanegol sydd ynghlwm wrth reoli'r gwaith o gynnal mwy o brofion a darparu'r brechlyn.

Mae'n gadarnhaol iawn clywed y cyhoeddiad bod modd i gartrefi gofal hwyluso ymweliadau dan do bellach, yn ogystal ag ymweliadau awyr agored ac ymweliadau a gynhelir mewn pod neu drwy'r ffenestr ar gyfer pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal (gyda'r gofyniad i ymwelwyr gael eu profi a gwisgo cyfarpar diogelu personol yn y cartref gofal). Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ymweliadau yn cael eu diweddarau i adlewyrchu hyn, a chânt eu hadolygu wrth i'r amgylchiadau newid.

Rydym yn deall bod darparwyr yn betrus, wrth reswm, am hwyluso ymweliadau er mwyn cadw'r bobl y maent yn gofalu amdanynt yn ddiogel, ac rydym hefyd yn cydnabod bod yr amgylchiadau yn wahanol ym mhob cartref gofal. Rhaid asesu risgiau ymweliadau yn y cyd-destun hwn. Fodd bynnag, ni ddylid gwneud penderfyniadau cyffredinol yn groes i ganllawiau'r llywodraeth. Lle mae penderfyniadau yn cael eu gwneud, boed hynny o ran ymweliadau, profion neu frechiadau, rhaid canolbwyntio bob amser ar anghenion a hawliau unigol yr unigolyn sy'n derbyn gofal a chefnogaeth.

Pwysigrwydd ymweliadau

Mae gallu gweld teulu a ffrindiau yn bwysig iawn i lesiant pawb. Nid oes modd gwneud hyn yn hawdd o ganlyniad i'r pandemig, ond i rai pobl mewn lleoliadau gofal, mae'n golygu bod ar wahân i'w teulu a heb allu bod mewn cysylltiad â nhw ers bron i flwyddyn. Cafwyd effaith niweidiol ar iechyd meddwl a llesiant emosiynol llawer o bobl, a hynny ar ben gweld eu ffrindiau yn y cartref gofal yn mynd yn sâl ac weithiau'n marw o ganlyniad i COVID-19.

Mae cefnogi llesiant meddyliol pobl yr un mor bwysig â chefnogi eu llesiant corfforol. Nod [canllawiau Llywodraeth Cymru](#) ar ymweliadau yw sicrhau y bydd modd cynnal ymweliadau mewn ffordd môr ddiogel â phosibl. O 13 Mawrth ymlaen, mae'r canllawiau yn dweud y dylai pob cartref gofal, oni fydd achosion o COVID-19, alluogi ymweliadau dan do yn ogystal ag ymweliadau awyr agored a rhai â sgrin. Hyd yn oed os bydd achosion, dylid **bob amser** hwyluso ymweliadau o dan amgylchiadau eithriadol megis gofal diwedd oes.

Rydym wedi clywed nifer o enghreifftiau o bob cwr o Gymru o arferion da o ran helpu pobl i gysylltu â'u teulu. Mae'n bwysicach nag erioed sicrhau bod cyfathrebu clir a rheolaidd yn digwydd rhwng darparwyr gofal, pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal a'u teuluoedd. Rydym yn disgwyl i bawb gydweithio er mwyn galluogi ymweliadau, ac i hyn fynd rhagddo mor ddiogel â phosibl. Mae'r protocol hwn yn helpu i nodi disgwyliadau i ymwelwyr, ynghyd â chanllawiau manwl i ddarparwyr.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi **datblygu adnoddau** i'ch helpu i asesu unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â hwyluso ymweliadau, ac mae cyngor ar gael gan eich awdurdod lleol neu eich Tîm Rheoli Digwyddiadau Lleol.

Pryderon

Os cawn wybodaeth sy'n peri pryder i ni gan y cyhoedd neu drwy broses chwythu'r chwiban, mae'n bosibl y byddwn yn cynnal arolygiad. Ymhlith y wybodaeth sy'n gysylltiedig ag ymweliadau a allai ysgogi arolygiad mae:

- gwaharddiad cyffredinol ar ymweliadau (lle nad oes unrhyw achosion);
- ymweliadau rheolaidd yn unol â chanllawiau cenedlaethol heb gael eu hwyluso (oni chynghorir nad yw'n ddiogel gwneud hynny);
- pobl heb gael eu cefnogi'n effeithiol i gyfathrebu â pherthnasau a grwpiau sy'n eu cynrychioli;
- pobl heb gael caniatâd i weld gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld.